

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2018 5.30 y h., 9fed o DACHWEDD 2019,
GWESTY'R AFR, BEDDGELERT

1. Croeso

Estynnodd Gwyn Williams, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod. Soniodd y cafwyd taith ddifyr i fyny Moel Hebog yn ystod y dydd a'r tywydd yn llawer gwell na'r disgwyl.

Nododd hefyd ei fod yn hynod o falch o weld Aneurin Phillips yn bresennol yn y cyfarfod yn dilyn ei driniaeth a'i fod yn falch o weld ei fod wedi gwella ac wedi ailgydio yng ngweithgareddau'r Clwb unwaith eto.

Hefyd fe longyfarchodd Dwynwen Pennant a oedd wedi cwblhau Marathon Efrog Newydd yn ddiweddar.

2. Ymddiheuriadau :

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2018

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Clwb a gynhaliwyd ar y 17eg o Dachwedd 2018 yng Ngwesty'r Llew Gwyn, Y Bala, fel rhai cywir.

4. Adroddiad y Trysorydd.

A. Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar gyfer 2018/2019.

Adroddwyd

- i. bod nifer yr aelodau eleni yn 312 (cynnydd o'r 308 y llynedd)
- ii. bod incwm o £6183 o'r tâl aelodaeth ac y talwyd allan £14.25 y pen i'r CMP ar gyfer aelodaeth o'r corff hwnnw
- iii. bod y cyfrifon yn dangos bod gan y Clwb £6633.56 yn y banc

Cytunwyd derbyn y cyfrifon ar gyfer 2018/2019

B. Cyflwynwyd adroddiad y Trysorydd ar dâl aelodaeth a statws elusennol y Clwb

Adroddwyd bod £14.25 o'r £20 tâl aelodaeth yn mynd i'r Cyngor Mynydda Prydeinig ond y byddai hyn yn cynyddu i £20.25 y pen y flwyddyn nesaf. Roedd yna bosibilrwydd y byddai 'r CMP yn codi 'r tâl eto yn y dyfodol gan eu bod yn wynebu hawliad yn erbyn eu polisi yswiriant a fyddai yn arwain at daliad sylweddol yn cael ei wneud gyda'r tebygolrwydd y byddai'r premiwm yn codi o ganlyniad.

Gan mai £20 yw tâl aelodaeth y Clwb ni fyddai yn cwrdd â'r tâl o £20.25 i'r CMP ond penderfynodd y Pwyllgor argymhell y dylid defnyddio'r arian sydd gan y Clwb wrth gefn i wneud i fyny 'r diffyg ar gyfer y flwyddyn nesaf a bod y tâl aelodaeth yn cael ei adolygu eto pan fydd y sefyllfa yn gliriach.

Yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd penderfynwyd y dylid edrych i mewn i'r posibilrwydd o gofrestru'r Clwb fel elusen. Un o fanteision posibl gwneud hynny fyddai y gellid manteisio ar adennill treth dan y Cynllun Rhodd Cymorth a byddai hynny wedyn yn helpu sefyllfa ariannol y Clwb.

Roedd y Pwyllgor wedi edrych i mewn i'r posibilrwydd o gofrestru'r Clwb fel elusen ac fe ddaeth yn amlwg na fyddai statws elusennol yn ei wneud yn gymwys i fanteisio ar y Cynllun treth "rhodd cymorth" gan fod yr unigolyn yn derbyn cymaint o fudd ariannol o yswiriant y CMP.

Ond daeth hefyd yn amlwg wrth edrych i fewn i hyn y byddai mabwysiadau cyfansoddiad newydd ar ffurf "Sefydliad Corfforedig Elusennol" yn rhoi gwarchodaeth werthfawr i'r aelodau a'r pwyllgor rhag unrhyw hawliadau.

Roedd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Medi 2019 wedi ystyried y mater ac wedi penderfynu y byddai cofrestru'r Clwb fel elusen a mabwysiadu cyfansoddiad addas i wneud hynny yn sicrhau bod ganddo gyfansoddiad cyfredol ar gyfer y dyfodol a fyddai yn diogelu'r aelodaeth a'r Pwyllgor a gellid manteisio ar fuddion eraill a allai godi o fod yn elusen. Yn sgil hynny cytunwyd byddai'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cyfarfod Blynyddol y dylid symud ymlaen i wneud cais i gofrestru'r Clwb fel elusen

Roedd y Trysorydd wedi paratoi cyfansoddiad drafft newydd ar gyfer y Clwb yn seiliedig ar gyfansoddiad model y Comisiwn Elusennau ar gyfer cymdeithasau. Roedd y cyfansoddiad drafft wedi ei gylchredeg i'r aelodaeth i gyd a hefyd wedi ei osod ar wefan y Clwb. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol ynglŷn â'r cyfansoddiad drafft.

Cytunwyd

- i. dylid cadw tâl aelodaeth y Clwb yn £20 ar gyfer y flwyddyn 2020/21 a defnyddio arian wrth gefn y Clwb i wneud fyny 'r gwahaniaeth rhwng y tâl presennol a 'r tâl fydd yn ddyledus i'r CMP
- ii. nodi y bydd yn rhaid ail-edrych ar lefel y tâl aelodaeth eto pan fydd y sefyllfa gyda'r CMP yn gliriach
- iii. derbyn argymhelliad y Pwyllgor i symud ymlaen i wneud cais i gofrestru'r Clwb fel elusen
- iv. yn sgil (iii) uchod mabwysiadu'r cyfansoddiad arfaethedig newydd ar gyfer y Clwb
- v. nodi bod y bleidlais yn unfrydol yn y cyfarfod ar gyfer mabwysiadau y cyfansoddiad newydd ac ni chafwyd unrhyw ymateb negyddol gan yr aelodaeth yn gyffredinol wedi ei gylchredeg iddynt.
- vi. mynegi gwerthfawrogiad o waith y Trysorydd ynglŷn â hyn. Diolch yn fawr iawn iddi.

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Adroddodd Iolo fod y Pwyllgor wedi cwrdd dair gwaith eleni, ym misoedd Ionawr, Mai a Medi ym Mhlas y Brenin

Y prif faterion sydd wedi cael sylw yn ystod y flwyddyn yw

Gan fod eleni yn flwyddyn arbennig yn hanes y Clwb gyda'r dathliadau 40, aeth llawer o amser y pwyllgor yn Ionawr a Mai yn gwneud y trefniadau ar gyfer dathlu'r pen-blwydd arbennig. Yn wir roedd cymaint o waith ynghlwm â'r trefniadau fel y bu'n rhaid cynnal ambell i gyfarfod ychwanegol i allu eu cwblhau.

Ffrwyth yr holl waith trefnu oedd bod llu o weithgareddau wedi eu cynnal yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Llanrwst ac roedd pawb yn gytûn fod yr holl waith wedi bod yn llwyddiannus ac wedi helpu i godi proffil y Clwb. Llawer o ddiolch i bawb a fu ynghlwm hefo'r trefniadau.

Yr ail beth aeth â sylw'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd y cais i gofrestru'r Clwb fel elusen a'r sefyllfa hefo tanysgrifiadau'r CMP, 2 fater cysylltiedig. Bu raid i'r CMP dalu swm mawr yn dilyn cais yn erbyn eu yswiriant sydd wedi arwain i gynnydd sylweddol yn eu premiwm. O ganlyniad fe godwyd y tanysgrifiadau unigol a delir gan glybiau i £20.25 y pen gyda thebygolrwydd y bydd angen ei godi eto.

Roedd amseriad y digwyddiadau hyn yn anffodus i'r Clwb a oedd newydd gytuno i godi ei dâl aelodaeth i £20 y llynedd gyda'r disgwyliad na fyddai raid ei godi eto am nifer o flynyddoedd.

Fodd bynnag mae'r datblygiadau yn y CMP wedi golygu fod y tanysgrifiadau unigol a delir i'r CMP yn uwch na'r tâl aelodaeth presennol ond bod y Pwyllgor wedi penderfynu cadw'r tâl fel y mae ar gyfer 2020 a defnyddio arian o'r coffrau i wneud fyny'r diffyg. Fodd bynnag yn amlwg nid yw'r sefyllfa yma yn gynaliadwy i'r dyfodol. Bydd yn rhaid i'r Pwyllgor ystyried y tâl aelodaeth eto yn ei gyfarfodydd flwyddyn nesaf pan fydd y sefyllfa gyda'r CMP yn gliriach a diau y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y Cyfarfod Blyneddol flwyddyn nesaf.

Hefyd yn y Cyfarfod Blyneddol cytunwyd y dylid gwneud cais i gofrestru'r Clwb fel elusen gyda'r gobaith ymysg pethau eraill y gellid manteisio ar adennill treth dan y Cynllun Rhodd Cymorth a fyddai o fudd i'r Clwb yn ariannol. Bu Dilys yn brysur yn paratoi cais i gofrestru'r Clwb fel elusen a daeth i'r amlwg wrth wneud hyn na fyddai'n bosib i'r Clwb gael budd o'r Cynllun Rhodd Cymorth.

Er hynny roedd yn benderfyniad gan y Pwyllgor i barhau i symud hefo'r cais i gofrestru'r Clwb fel elusen a dyna pam yr ystyriwyd mabwysiadu'r cyfansoddiad newydd sydd gerbron heddiw.

Y prif fater arall o sylwedd oedd i'r Pwyllgor fabwysiadu canllawiau/rheolau ar gyfer teithiau preswyl y Clwb gyda'r bwriad o geisio sicrhau nad yw'r teithiau preswyl yn gwneud colled. Mae'r canllawiau yn pwysleisio os yw aelod yn gwneud ymrwymiad i fynychu yna ni ddylai disgwyl cael ad-daliad os yn methu mynd wedyn. Roedd y Cyfarfod Blyneddol y llynedd yn y Bala wedi cytuno â'r egwyddor na ddylai teithiau preswyl wneud colled gyda'r Clwb wedyn yn gorfod ysgwyddo'r gost o'i goffrau.

Bod y Clwb wastad yn chwilio am aelodau sydd â diddordeb mewn gwasanaethu ar y Pwyllgor a byddai'n ddiolchgar pe byddai unrhyw un hefo diddordeb yn cysylltu gydag ef.

Derbyniwyd yr adroddiad

6. Adroddiad Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Nododd Eryl y cafwyd blwyddyn arall brysur a llwyddiannus o weithgareddau gyda chyfanswm o 58 o deithiau cerdded. Diolchodd i'r rhai hynny oedd yn barod i drefnu ac i arwain. Roedd tua 40 o unigolion wedi gwneud hynny dros y deuddeng mis diwethaf, y rhan fwyaf yn arweinwyr profiadol. Byddai'n braf gweld rhai o'r newydd yn cynnig eu hunain; yn sicr, mae llawer gyda phrofiad digonol i arwain teithiau a gellir, beth bynnag, ddibynnu bob amser ar gefnogaeth a chydweithrediad parod cyd-gerddwyr.

Trefnwyd 33 o deithiau cerdded yn y gogledd gyda chyfartaledd o bron 13 ar bob taith. Dwy daith ym Meirionnydd ddenodd y nifer uchaf; 25 ar daith Manod Mawr a'r un nifer ar Gadair Idris ddiwedd mis Gorffennaf. Roedd hon yn daith arbennig, wedi ei threfnu gan Dewi Hughes fel rhan o raglen y de ac felly'n denu aelodau o bob cwr o Gymru. Ceisiwyd sicrhau amrywiaeth, o deithiau mynydd hir a rhai'n cynnwys peth sgrialu, i deithiau mwy cymedrol fel Manod Mawr, a nodwyd eisoes, Yr Eifl a Llwybr Mawddach.

Cafwyd dau fis arbennig o brysur, wyth o deithiau ym Mai a chwech ym mis Medi – a chriwiau'n gadael am yr Alban ac am Iwerddon ddiwedd y misoedd hynny – a pham lai; os oedd cynigion o deithiau amrywiol yna waeth cynnig y dewis ehangaf i'r aelodau a manteisio ar adegau o dywydd braf.

Cynhaliwyd 12 o deithiau Mercher, a'r rheiny'n dal yr un mor boblogaidd, yn denu cyfartaledd o tua 20. Daeth 34 ar daith wythnos yr Eisteddfod i ardal Llanrhychwyn a llynnoedd Geirionnydd a Chrafnant. Roedd hon, fel gweddill gweithgareddau'r Eisteddfod, yn hysbyseb ragorol i'r clwb. A rhaid crybwyll y daith arbennig iawn o Gaernarfon i Lanrwst i ddathlu'r deugain. Diolch i Dwynwen a'i chynorthwyr am y paratodau trylwyr ac am ymroddiad pawb a gerddodd y daith gyfan. Cerddwyd o leiaf rhan o'r daith gan dros 30.

Cafwyd 13 o deithiau yn ne Cymru, a diolch i Dewi Hughes am gyd-lynu'r teithiau hynny. Credai mai'r nifer fwyaf gafwyd oedd 21 ar daith yn ardal Crughywel ddechrau mis Rhagfyr; wrth gwrs, roedd cinio mawreddog yn dilyn y noson honno.

Bu'r Teithiau Blasu ar ddydd Llun Calan Mai yn llwyddiannus, o leiaf o ran teithiau Cadair Idris a'r Nicht, gyda chyfanswm o 39 o gerddwyr, llawer heb fod gyda'r clwb o'r blaen a'r oedran yn amrywio o chwech i dros saithdeg. Penderfynodd rhai ymaelodi ond mae gwerth mewn dim ond cyflwyno'r profiad o fynydda ac efallai ysgogi rhai i gerdded mwy ar eu liwt eu hunain.

Trefnwyd pedair taith breswyl. Bu 14 yng Nglen Feshie i fwynhau tywydd sych a braf annhymhorol fis Chwefror. Cafwyd dwy daith ym mis Mai, 18 yn cwrdd yn Hostel Libanus yn y Bannau glawog a 22 yn Inchree ddiwedd y mis yn ddigon ffodus i fwynhau sawl diwrnod o dywydd braf. Doedd y tywydd ddim cystal i'r 22 ymwelodd â Mynyddoedd Mourne ond pawb wedi mwynhau serch hynny. Llawer o ddiolch i Maldwyn Peris, Gwyn Llanrwst, Gareth Everett a Raymond Griffiths am drefnu'r teithiau hyn.

Fel y crybwyllwyd eisoes, bu wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn hynod llwyddiannus, gyda'r uned yn ddeniadol ac yn tynnu sylw'n effeithiol a'r gwahanol gwisiau a gweithgareddau'n boblogaidd iawn. Cafwyd cynulleidfaoedd niferus i'r cyfarfod cofiadwy

iawn yn y Babell Lân ar y dydd Llun a thraddodwyd Darlith Goffa Llew Gwent gydag egni ac asbri gan Huw Brassington.

Roedd y dasg o drefnu rhaglen Ionawr - Ebrill eisoes ar droed; y nod oedd cynnig amrywiaeth o deithiau mynydda o wahanol hyd ac o wahanol her mewn gwahanol ardaloedd; y patrwm sylfaenol yw taith fynydda eithaf sylweddol bob pythefnos a gweithgareddau ychwanegol megis sgramblo neu feicio yn y bylchau rhyngddynt yn ogystal ag ambell daith gerdded lai heriol.

Roedd bob amser yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella'r ddarpariaeth a gofynnodd i bawb fod yn barod i gynnig arwain a threfnu dros y flwyddyn sydd i ddod.

Derbyniwyd yr adroddiad

7. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Cafwyd adroddiad gan Iolo ap Gwynn ar faterion gwefan y Clwb

Adroddodd ar y canlynol :

i. Yn fras, roedd defnydd o'r wefan (gyda Facebook a Trydar) wedi cynyddu'n gyson ac mae'r "apiau" iOS ac Android yn boblogaidd – mynediad uniongyrchol i ddata'r wefan oddi ar ffonau a thabledi.

ii. Dengys data Google Analytics fod tua 15,000 o sesiynnau wedi eu cynnal ar ein gwefan yn ystod y flwyddyn gan tua 500 o ddefnyddwyr rheolaidd (50:50, merched a dynion) o 25 o wledydd – er yn bennaf o Gymru. Defnydd sylweddol o gyfrifiaduron PC a Mac yn ogystal â ffonau clyfar a phadaiau. Felly, bu addasu ein gwefan i fod yn gytnaws â'r holl ddyfeisiadau yn gyfraniad pwysig.

iii. Roedd defnydd Facebook (FB) wedi cynyddu (ein grŵp ein hunain). Tua 700 yn dilyn ein tudalen yn rheolaidd, gyda thrawsdoriad gweddol gyson o ran oedran.

iv. Cyhoeddir pob taith ar FB, yn ogystal â hanes efo lluniau. Cedwir yr holl luniau ar gyfro Flickr Pro arbennig (rhaid talu ffi blynyddol am hwn) – mae dros 5,000 o luniau arno.

v. Cyhoeddir teithiau hefyd ar Trydar – yn ogystal ag e-bost uniongyrchol gan yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.

vi. Diolchodd i bawb a ddarparodd adroddiadau/hanesion a lluniau ar gyfer y wefan yn ystod y flwyddyn a oedd yn gofnod arbennig o'n gweithgareddau.

Derbyniwyd yr adroddiad

8. Swyddogion y Clwb

A. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2020:

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Eryl Owain

Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

Trysorydd: Dilys A Phillips (gyda Richard Roberts i barhau i gynorthwyo yn ôl yr angen

9. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2020

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth nad oedd unrhyw aelod presennol o'r Pwyllgor wedi datgan eu bod yn dymuno sefyll i lawr eleni. Hefyd ni chafwyd unrhyw ymateb i'r cais am aelodau newydd.

Cytunwyd yn sgil y wybodaeth uchod y byddai aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2020 yn aros yr un fath fel y nodir isod ac y bydd yn cael ei adolygu eto'r flwyddyn nesaf yn unol â gofynion y cyfansoddiad newydd os yn berthnasol.

Cadeirydd

Gwyn Williams (Llanrwst)

Is-gadeirydd

Dwynwen Pennant

Aelodau

Iona Evans
Raymond Griffiths
Dewi Hughes
Richard Roberts
Eirwen Williams
Stephen Williams
Gareth E Roberts

Swyddogion

Dilys A Phillips	Trysorydd
Eryl Owain	Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn	Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts	Ysgrifennydd Cyffredinol

10 Archwilydd

Penodwyd George Jones fel archwilydd.

11. Adroddiad gan y Cadeirydd

Wrth i'r cyfarfod ddod i ben cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion canlynol:

Estynnodd ddiolch i bawb a oedd wedi cyfrannu ac wedi bod ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer gweithgareddau dathlu pen-blwydd 40 y Clwb yn yr Eisteddfod yn Llanrwst. Roedd aelodau a swyddogion y Pwyllgor ac aelodau eraill wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn ac roedd pawb yn gytŷn fod yr holl waith wedi dwyn ffrwyth ac y cafwyd wythnos llwyddiannus ac fe lwyddwyd i godi proffil y Clwb yn arw

Diolchodd yn arbennig i Dwynwen am ei holl waith yn trefnu'r ddarlith flynyddol a'r daith o Gaernarfon i Llanrwst a oedd wedi ei threfnu yn hynod o effeithlon a threfnus.

Mynegodd ei ddiolch hefyd i'r holl bartneriaid yn standin y Clwb yn yr Eisteddfod sef Cyngor Mynydda Prydeinig, Partneriaeth Awyr Agored a Mountain Training Association

Wrth wneud y trefniadau ar gyfer yr Eisteddfod daeth i'r amlwg fod offer a deunydd cyhoeddusrwydd y Clwb ar wasgar. Bellach roedd trefniant i gael cofnod o'r holl offer a hefyd byddai yn cael ei gadw mewn un safle a diolchodd i Dilys am gytuno i arwain ar hyn.

Ar fater arall roedd yn sicr fod yr aelodau i gyd fel yntau yn gwerthfawrogi yn fawr yr holl waith a wneir gan y timau achub ar y mynyddoedd yn feunyddiol a gofynnodd a fyddai'r aelodau yn cytuno y gellid gwneud casgliad a defnyddio'r arian i wneud cyfraniad i dîm achub. Gan fod nifer o dimau achub ledled Cymru awgrymodd y gellid gwneud hyn yn arferiad blynyddol a bod gwahanol dîm achub yn derbyn cyfraniad bob blwyddyn.

Cafwyd y sylwadau canlynol ar y materion a godwyd gan y Cadeirydd:

i. Ategu fod y dathliadau 40 yn Eisteddfod Llanrwst wedi bod yn llwyddiannus tu hwnt a diolch i bawb a fu ynghlwm hefo'r trefniadau ac y dylid edrych ymlaen nawr at y 40 mlynedd nesaf gyda balchder a hyder

ii. bod y dogfennau hanesyddol a ddangoswyd yn yr arddangosfa am sefydlu'r Clwb yn hynod o ddiddorol a bod yna werth mawr i'w cadw fel cofnod hanesyddol. Yn sgil hyn dylid eu cynnig i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth fel y byddent yn cael eu diogelu i'r dyfodol cyn belled â bod perchenogion y dogfennau yn cytuno.

iii. Cytuno ag awgrym y Cadeirydd i gael casgliad ar gyfer y timau achub ac mai timau achub Llanberis a De Meirionnydd a fyddai'n derbyn cyfraniad eleni.

Derbyniwyd cyfraniadau o £233 a fyddai yn cael ei gyflwyno i'r timau achub uchod.

12. Unrhyw Fater Arall

Ni ddaeth cais i drafod unrhyw fater arall.

Ar ddiwedd y cyfarfod cafwyd cyflwyniad gan Gareth Pierce, un o aelodau gwreiddiol y Clwb ac sydd bellach wedi ei benodi yn Gadeirydd y Cyngor Mynydda Prydeinig.

Yn ei gyflwyniad soniodd Gareth rywfaint am waith y CMP, am ei ddiddordeb a'i hanes personol o fynydda dros y blynyddoedd ac am ei ddiddordeb mewn cerddi yn gysylltiedig â mynydda a mynyddoedd.

Diolchodd y Cadeirydd i Gareth am ei gyflwyniad difyr a diddorol ac mynegodd y gobaith y byddai ei ymchwil i gerddi am fynydda yn cael ei gyhoeddi rhywbryd fel y byddai ffrwyth ei waith ar gael i bawb.